Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Meilyr Rowlands |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 26.03.21 |
| **Pwnc / Subject:** | **Categoreiddio ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**
Rydym yn croesawu'r ddogfen ddrafft 'Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: dogfen ganllaw anstatudol'. Mae'r ddogfen:

- yn amlinellu'n glir y trefniadau newydd ar gyfer categoreiddio ysgolion ar sail faint o addysgu a dysgu sy'n digwydd yn Gymraeg
- yn darparu canllawiau clir ar gyfer rhieni / gofalwyr ar y modelau ysgolion yn ôl yr iaith a ganfyddir yng Nghymru
- yn sefydlu patrwm cenedlaethol o ddarpariaeth i alluogi rhieni / gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus wrth ddewis llwybr addysg eu plentyn
- yn symleiddio'r categorïau ieithyddol ysgol presennol a fydd yn cefnogi awdurdodau lleol i werthuso eu cynnydd yn unol â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) trwy fonitro rheolaidd, ac i gyflawni eu targedau
- yn darparu targedau dyheadol i gefnogi llwybr datblygiadol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n dymuno cynyddu faint o Gymraeg sy'n cael ei haddysgu yn eu hysgol
- yn amlinellu is-gategorïau pontio sy'n cefnogi'r egwyddor y bydd ysgolion yn symud ar hyd continwwm iaith
- yn sefydlu'r egwyddor na ddylai ysgolion leihau faint o ddarpariaeth Gymraeg a gynigir
- yn darparu diffiniadau cyson ledled Cymru a fydd yn cefnogi parhad ar gyfer dysgwyr sy'n symud o fewn Cymru ac o'r tu allan i Gymru
- yn cefnogi'r rheoliadau newydd a ddaeth i rym ym mis Ionawr 2020 ac yn gosod disgwyliadau uchel ar awdurdodau lleol i gynllunio ar gyfer twf darpariaeth cyfrwng Cymraeg â mwy o uchelgais a chyflymdra

Mae hwn yn ymgynghoriad amserol yn sgil cyflwyno Cwricwlwm newydd i Gymru, a chylch newydd ar gyfer CSCA. Mae'r cynigion yn cefnogi'r uchelgais genedlaethol ar gyfer y Gymraeg a amlinellir yn Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae'r cynigion hefyd yn cyd-fynd â'r disgrifiadau o ddysgu o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Cwricwlwm newydd i Gymru.

Er mwyn cryfhau trefniadau a darparu mwy o eglurder, efallai byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno datblygu arweiniad pellach ar y canlynol:

- categoreiddio yn ôl darpariaeth yn y sector cynradd
- sut dylai ysgolion uwchradd sydd yng nghategori 3 ar hyn o bryd ddehongli'r arweiniad o ran darparu cwricwlwm cyfrwng Cymraeg
- trefniadau ymarferol ar gyfer newid i gategori newydd, yn cynnwys modelau posibl.

Yn gyfochrog â hyn, efallai byddai Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried strategaethau hefyd i hyrwyddo ymhlith rhieni fanteision dewis darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer eu plentyn yn gynyddol.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Cwestiwn 1** – Ydych chi'n cytuno â'r angen i ddiwygio'r polisi o amgylch categorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol:**

| |
|---|
| Ar hyn o bryd, mae'r categorïau ysgolion ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg yn amwys a chymhleth i'w deall. Nid ydynt yn cefnogi rhieni yn ddigonol i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch taith ieithyddol llwybr addysgol eu plentyn. Yn ein hadroddiad thematig '[Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol – Medi 2016]' fe wnaethom nodi:<br><br>'Defnyddir sawl term ar gyfer ysgolion lle defnyddir y Gymraeg yn helaeth fel cyfrwng yr addysgu, fel 'ysgolion Cymraeg', 'ysgolion dwyieithog', 'ysgolion Cymraeg traddodiadol' neu 'ysgolion Cymraeg naturiol'. Nid yw'r termau hyn yn rhoi esboniad digon da o raddau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Ni chaiff categoreiddiadau swyddogol Llywodraeth Cymru eu defnyddio'n gyson gan ysgolion ac awdurdodau lleol bob amser. Mae hyn yn ei gwneud yn heriol i rieni wneud penderfyniadau gwybodus am addysg eu plant'. |

**Cwestiwn 2** – A yw'r newidiadau a gynigir yn annog ac yn cefnogi ysgolion i gynyddu maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg?

| Ydyn | ✓ | Nac ydyn | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

| |
|---|
| Mae'r newidiadau a gynigir yn annog ac yn cefnogi'r dyheadau a'r targedau a amlinellir yng nghynllun gwaith Cymraeg 2050 a chynllun gweithredu Cymraeg mewn Addysg 2017-21.<br><br>**Cynradd**<br><br>Y prif gynnig yn y sector cynradd yw cynyddu maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg trwy gyflwyno is-gategorïau trosiannol. Byddai'n fuddiol darparu eglurhad pellach ac ymarferol ynghylch categoreiddio yn ôl darpariaeth yn hytrach nag yn ôl ysgol gyfan. Er enghraifft, gallai fod mwy nag un categori mewn ysgol, fel ysgol sy'n darparu addysg cyfrwng Saesneg mewn un ffrwd, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ffrwd arall, a allai fod yn gategori 1 a chategori 3. Hefyd, gallai sefyllfa ddatblygu lle mae ysgolion ffrwd ddeuol yn cynnig ffrwd Gymraeg / Saesneg a ffrwd cyfrwng Cymraeg. Felly, byddai eglurhad o ran gweithredu a chefnogi mwy nag un categori ieithyddol mewn ysgol yn fuddiol i arweinwyr a chyrff llywodraethol.<br><br>Mae'r cynnig yn caniatáu hyblygrwydd er mwyn i ysgolion allu symud o un categori i gategori arall o fewn uchafswm cyfnod o 10 mlynedd er mwyn datblygu eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Er mwyn i ysgolion allu trosglwyddo o un categori i un arall i gryfhau a datblygu eu darpariaeth Gymraeg, mae angen arweiniad i sicrhau bod cynllun yn cael ei gytuno â'r awdurdod lleol i gefnogi'r ysgol i baratoi ar gyfer cynnydd o ran eu darpariaeth Gymraeg. Yn ychwanegol, i gynorthwyo dilyniant, bydd cydweithio â rhanddeiliaid allweddol yn ffactor penodedig wrth helpu i |

wneud y pontio mor ddi-dor ag y bo modd o un categori i un arall. Mae'n anochel fod goblygiadau o ran adnoddau i'r model hwn lwyddo, fel dysgu proffesiynol ar gyfer staff ynghylch methodoleg drochi, cyflogi athrawon ychwanegol sy'n hyderus ac yn hyfedr i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac adnoddau dysgu Cymraeg. Er mwyn sicrhau cyfnod pontio effeithiol o un is-gategori i un arall, mae angen i awdurdodau lleol fonitro'r targedau a amlinellir yn y CSCA ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth yn agos, yn ogystal ag effeithiolrwydd y ddarpariaeth i ymestyn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn llwyddiannus ym mhob darparwr.

**Uwchradd**

Cynigir dau faen prawf i gefnogi ysgolion a chyrff llywodraethol i gynyddu lefelau dilyniant o'r cynradd i'r uwchradd. Cynigir diffinio modelau categori 2 a 3 yn ôl model mewnbwn ac allbwn. I annog a chefnogi ysgolion uwchradd i gynyddu maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, mae'n amodi'n glir ganran y disgyblion fydd yn dilyn y meysydd dysgu hynny trwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 16 oed. Er enghraifft, o leiaf 40% o ddysgwyr yn dilyn meysydd dysgu mewn o leiaf tri phwnc yn Gymraeg. Mae'n hanfodol fod nifer y disgyblion sy'n dilyn neu'n astudio eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei monitro'n agos er mwyn i'r model hwn lwyddo, a bod y targedau'n cael eu monitro wrth iddynt gychwyn ar y pynciau yn hytrach nag ar ystod briodol y pynciau a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg. Gellid dirnad bod categori 3 yn gwanhau yn hytrach na chryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, gan ei fod yn datgan 'Mae o leiaf 70% o ddysgwyr yn dilyn meysydd dysgu mewn o leiaf 5 pwnc yn Gymraeg (neu gyfwerth o fewn y cwricwlwm presennol, a heb gynnwys Saesneg a Chymraeg' (Categorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg, tud.16). Ar hyn o bryd, mae'r cynnig hwn yn llai dyheadol na'r hyn sy'n cael ei gynnig mewn llawer o ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd, lle mae bron pob un o'r disgyblion yn dilyn eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.

Er bod y ddogfen yn pennu'r egwyddor na ddylai ysgolion leihau faint o ddarpariaeth Gymraeg a gynigir, gallai model categori 3 o bosibl fod yn niweidiol i ysgolion sydd eisoes yn cynnig 100% o'u darpariaeth (ac eithrio Saesneg fel pwnc) trwy gyfrwng y Gymraeg. Gallai'r model hwn fod yn agored i'w gamddehongli gan randdeiliaid a fyddai'n eirioli newid yn y cyfrwng iaith ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth. Er enghraifft, gellid herio ysgol sy'n addysgu gwyddoniaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd i addysgu'r pwnc hwn trwy gyfrwng y Saesneg.

**Ysgolion pob oed ac ysgolion arbennig**

Ni chyfeirir at y modd y mae'r polisi hwn yn cefnogi'r darparwyr hyn i gynyddu maint y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 3** – A ydym ni'n cyflawni ein nod polisi, sef cyflwyno categorïau ysgolion sy'n gliriach ar gyfer:

(a) rhieni / gofalwyr?

| **Ydym** | ✓ | **Nac ydym** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

(b) awdurdodau lleol?

| Ydym | ✓ | Nac ydym | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

(c) ysgolion?

| Ydym | ✓ | Nac ydym | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

Er mwyn cynorthwyo rhieni a gofalwyr ymhellach i wneud penderfyniad gwybodus, byddai'n fuddiol cael canllaw hawdd ei ddefnyddio yn amlinellu manteision addysg cyfrwng Cymraeg a bod yn ddwyieithog ar ddiwedd eu taith addysgol. Yn ychwanegol, byddai cyflwyniad aml-gyfrwng yn egluro sut mae'r modelau hyn yn gweithredu bob dydd yn helpu rhoi dealltwriaeth gliriach i rieni a gofalwyr o natur y ddarpariaeth a'r allbwn ieithyddol ar gyfer eu plentyn. Nodom yn yr adroddiad Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol – Medi 2016, er mwyn cryfhau cynlluniau strategol a darpariaeth cyfrwng Cymraeg, fod dull systematig gan awdurdodau lleol i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn allweddol i lwyddiant y polisi hwn:

'Pan fydd y cynnydd yn dda, ceir ymrwymiad cryf gan aelodau etholedig ac uwch arweinwyr i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg. I'r gwrthwyneb, mewn ychydig o awdurdodau lleol lle na roddir blaenoriaeth uchel i hyn, a chyfrifoldeb swyddogion haen ganol yw cyflwyno'r ddarpariaeth, mae cynnydd yn erbyn targedau yn araf'. (**Cynlluniau** Erthygl newyddion / 27 Medi 2016)
Yn ychwanegol, mae'r adroddiad hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod:

- targedau cynllun lleol yn alinio â'r strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg
- awdurdodau lleol yn ystyried cyflawni'r targedau hyn fel blaenoriaeth strategol; a
- bod rhoi cynlluniau strategol ar waith yn cael ei fonitro'n drylwyr.

O ran ysgolion, mae'n fuddiol ac yn gliriach amodi canran y cwricwlwm yn y sector cynradd a addysgir yn Gymraeg, er enghraifft 80%. Mae hyn yn galluogi arweinwyr a chyrff llywodraethol i gynllunio, datblygu a monitro'r ddarpariaeth yn effeithiol. Yn y sector uwchradd, mae'r model yn seiliedig ar fewnbwn ac allbwn sydd eto yn rhoi'r un disgwyliadau ar arweinwyr a chyrff llywodraethol i sicrhau y gweithredir yn unol â'r targedau meintiol, ac y glynir atynt ym mholisi iaith pob ysgol. Dylid ymgorffori hyn ym mhrosbectws pob ysgol, ac ym Mhrosbectws Cyfansawdd yr awdurdod lleol.

**Cwestiwn 4** – Ydych chi'n cytuno â:

(a) defnyddio rhifo ar gyfer categorïau?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

(b) cael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

(c) mwy o ffocws ar ddisgrifiadau'r deilliannau ieithyddol ar gyfer pob categori?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

(ch) cyflwyno is-gategorïau i hwyluso pontio?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

(d) y gwahanol ddulliau o gategoreiddio darpariaeth ysgolion cynradd ac uwchradd?

| Ydw | ✓ | Nac ydw | ☐ | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

Ar hyn o bryd, nid yw'r termau a ddefnyddir i gategoreiddio yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn darparu darlun clir o'r graddau y caiff disgyblion eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog. Nid yw categoreiddio swyddogol, yn cynnwys is-gategorïau ar gyfer ysgolion dwyieithog, yn cael ei ddefnyddio'n gywir gan ysgolion bob amser. Trwy gael llai o gategorïau ond disgrifiadau ehangach, mae hyn yn rhoi mwy o eglurder i sicrhau dealltwriaeth well yr holl randdeiliaid o iaith wirioneddol y ddarpariaeth a gynigir gan yr ysgol.

Yn ychwanegol, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad, bydd hyn yn ei gwneud yn haws i ysgolion ac awdurdodau lleol 'gydweithio i sicrhau bod categorïau ysgolion yn cyd-fynd ag ymrwymiad yr awdurdod lleol i gynyddu swm y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'i CSCA' (Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, Rhagfyr, 2020, tud.6).

Mae pob un o'r cynigion yn cefnogi'r uchelgais genedlaethol ar gyfer y Gymraeg a amlinellir yn *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr Cymraeg.* Mae'r cynigion hefyd yn alinio â'r disgrifiadau o ddysgu o fewn y Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Cwricwlwm newydd i Gymru. Fel y nodwyd, am y tro cyntaf, bydd gan y cwricwlwm newydd gontinwwm dilyniant a disgwyliadau clir o gaffael y Gymraeg ar draws pob ysgol.

**Cwestiwn 5** – Wrth gyfeirio at ganrannau yn y categorïau uwchradd, a ddylem ni gynnwys:

(a) isafswm canran yn unig?

| Dylem | ☐ | Na ddylem | ✓ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**neu**

(b) isafswm **ac** uchafswm amrediad canran?

| Dylem | ✓ | Na ddylem | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

Trwy ddiffinio isafswm canran, nid yw'n annog yr holl randdeiliaid i ddyheu i ddatblygu neu gynyddu canran y dysgwyr sy'n dilyn meysydd dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Trwy gyfeirio at isafswm ac uchafswm amrediad canran, byddai'n annog ysgolion i anelu at gyrraedd targed dyheadol a fyddai'n alinio â'r CSCA.

Yn y model presennol a gynigir, mae'n datgan bod o leiaf 40% o ddysgwyr yng nghategori 2 yn dilyn meysydd dysgu mewn o leiaf 3 phwnc yn Gymraeg (neu gyfwerth o fewn y cwricwlwm presennol, a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg hyd at 16 oed). Yng nghategori 3, mae o leiaf 70% o ddysgwyr yn dilyn meysydd dysgu mewn o leiaf 5 pwnc yn Gymraeg neu gyfwerth o fewn y cwricwlwm presennol, a heb gynnwys Cymraeg a Saesneg. Gallai'r datganiadau hyn ar gyfer ysgolion categori 2 annog y sefyllfa bresennol mewn darpariaeth mewn ysgolion dwyieithog heb unrhyw darged dyheadol i anelu ato. Hefyd, yn y canllawiau i gategoreiddio ysgolion yng nghategori 3, maent yn llai dyheadol nag arferion bron pob ysgol cyfrwng Cymraeg sy'n darparu bron pob pwnc trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd. Gallai hyn fod yn niweidiol i ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd wedi sefydlu darpariaeth yn llwyddiannus, lle caiff y cwricwlwm cyfan (heblaw Saesneg) ei addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Cwestiwn 6** – A oes angen i ni gyhoeddi arweiniad ychwanegol wedi'i deilwra tuag at grwpiau penodol fel ysgolion a rhieni / gofalwyr yn dilyn cyhoeddi'r arweiniad hwn yn derfynol?

| Oes | ✓ | Nac oes | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Unrhyw sylwadau ychwanegol**

Gallai arweiniad ychwanegol gynnwys:

**Rhieni / Gofalwyr**

- marchnata ac esbonio manteision dilyn cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion a rhieni / gofalwyr i sicrhau bod rhieni'n cael eu cynnwys yn fwy yn addysg eu plant
- cydweithredu rhagweithiol â'r holl randdeiliaid addysgol fel Mudiad Meithrin a chonsortia rhanbarthol i ddarparu gwybodaeth fanwl am fanteision addysg cyfrwng Cymraeg a'r cymorth sydd ar gael i rieni i annog datblygiad ieithyddol eu plentyn
- marchnata manteision bod yn ddwyieithog ac yn amlieithog wrth fynd ar drywydd llwybrau cyflogadwyedd.

**Ysgolion**

- dysgu proffesiynol i gefnogi a datblygu medrau ieithyddol staff i gyflwyno darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg
- amlygu cymorth deunyddiau dysgu Cymraeg trwy nodi adnoddau cyfrwng Cymraeg, er enghraifft HWB a phlatfformau digidol rhanbarthol, fel E-sgol, i rannu arfer dda ar draws pob cyfnod allweddol i sicrhau tegwch
- arweiniad i gyrff llywodraethol ar y goblygiadau, a dealltwriaeth glir o rwymedigaethau goruchwylio cyfnod pontio di-dor o un categori i un arall
- cymorth i gyrff llywodraethol gynllunio eu gweithlu yn unol â'r arweiniad hwn, ac â'r amcanion a amlinellir yn y CSCAau i gynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg fel pwnc a thrwy gyfrwng y Gymraeg
- arweiniad ar gynlluniau gwerthuso a gwella ysgolion i gynorthwyo ysgolion i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg
- arweiniad ar weithio mewn partneriaeth i weithredu a monitro targedau fel rhan o'r broses bontio.

**Darparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon**

- i gyflawni nodau'r ymgynghoriad hwn, bydd angen mwy o ymarferwyr sy'n gallu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ranbarthol a lleol. Mae gan ddarparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon rôl allweddol yn eu proses marchnata a recriwtio i gefnogi mwy o athrawon dan hyfforddiant i allu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai'n werthfawr cael arweiniad ychwanegol gan ddarparwyr Addysg Gychwynnol i Athrawon i gefnogi athrawon dan hyfforddiant i gyflawni'r safonau proffesiynol ac arweinyddiaeth i athrawon 'chwilio'n weithredol am gyfleoedd i gymhwyso ac ymestyn eu dealltwriaeth a'u sgiliau wrth ddefnyddio'r Gymraeg'.

**Cwestiwn 7** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r arweiniad ar gategorïau ysgolion yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar:

i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu liniaru effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

1) Mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, fel ei gilydd, dylid rhoi blaenoriaeth uchel i sicrhau a sefydlu ethos Cymreig cadarnhaol i hyrwyddo'r cyfleoedd i ddysgwyr ifanc ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus. Nid yw'r cynigion yn cyfeirio'n eglur at yr ethos yn y geiriau 'Beth mae hyn yn ei olygu i ysgolion?' yn y categorïau cynradd. Yn anochel, trwy gynyddu canran y disgyblion mewn ysgolion uwchradd sy'n dilyn eu meysydd astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, rydym yn rhagweld y bydd y disgyblion hyn yn cael mwy o gyfleoedd i gael eu trochi'n llwyr yn yr iaith. Yn ychwanegol, mae darparu gwybodaeth i rieni gynorthwyo eu plant i sgwrsio trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod gweithgareddau anffurfiol yn ffactor allweddol hefyd.

2) I sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, dylid ystyried y canlynol:

- Sicrhau bod disgyblion ym mhob awdurdod lleol yn cael mynediad at unedau trochi yn y Gymraeg, fel bod darpariaeth deg ar gyfer disgyblion sy'n dymuno symud o ddarpariaeth cyfrwng Saesneg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ledled Cymru.
- Byddai'r ddarpariaeth hon yn galluogi dysgwyr i drosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg ar unrhyw adeg o Flwyddyn 3 ymlaen. Byddai hyn hefyd yn galluogi hwyrddyfodiaid i gael eu trochi yn yr iaith.
- Ehangu'r cynnig cymwysterau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Cydweithio rhwng ysgolion i greu a rhannu adnoddau dysgu Cymraeg i gefnogi tegwch yn y ddarpariaeth.
- Fel y nodwyd yng Nghynllun Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2010, gweledigaeth y CSCA yw: 'cael system addysg a hyfforddiant sy'n ymateb mewn ffordd gynlluniedig i'r galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg, sy'n cyrraedd ein cymunedau amrywiol ac yn eu hadlewyrchu ac sy'n sicrhau cynnydd yn nifer y bobl o bob oedran a chefndir sy'n rhugl yn y Gymraeg ac sy'n gallu defnyddio'r iaith gyda'u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle.'

**Cwestiwn 8** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn cael:

i) effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
ii) dim effeithiau niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

- Gweler ateb yn C5

Er mwyn cael effeithiau cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, dylid ystyried y canlynol i gryfhau'r arweiniad anstatudol:

- Cymorth gan uwch arweinwyr i sefydlu gweledigaeth gref ynglŷn â hyrwyddo'r Gymraeg ac ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Mesurau cliriach i wneud awdurdodau lleol yn atebol am fodloni'r targedau a amlinellir yn y 7 deilliant penodol yn y CSCAau
- Partneriaeth gryfach rhwng awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r CSCAau, yn enwedig wrth osod targedau
- Dull mwy systematig o fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg o fewn awdurdodau lleol i sicrhau bod cynllunio yn rhagweithiol yn fwy nag adweithiol
- Sicrhau bod awdurdodau lleol nid yn unig yn olrhain nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4, ond yn gweithio gydag ysgolion unigol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n eu dilyn
- Hyrwyddo partneriaethau mwy effeithiol trwy rwydweithiau'r Llwybrau Dysgu 14-19 i gynyddu nifer y cyrsiau cyfrwng Cymraeg a ddarperir mewn cyfnodau allweddol, ac yn y sector ôl-16
- Sicrhau cyllid cynaledig i gefnogi'r holl ddarparwyr i gryfhau eu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

**Cwestiwn 9** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i adrodd arnynt.

Dd/b

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐